# GRAS A SANCTEIDDRWYDD

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob
18 Tachwedd 2021

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn dathlu tymor y Seintiau. Mae'n dechrau ar 1 Tachwedd wrth i ni ddathlu Dydd yr Holl Saint, ac mae'n parhau tan ddathliad Holl Seintiau Cymru ar yr 8fed. Mae'n ffordd o'n hatgoffa ein bod ni oll, pob un o ddilynwyr Iesu, yn cael ein galw i fod yn seintiau. Daw'r gair "sant" o'r Lladin, "sanctus", sy'n golygu "sanctaidd", ac mae yna dueddiad i ni ddefnyddio'r gair i awgrymu fod sant yn rhywun eithriadol. "Roedd hi'n santes" fel y byddwn ni'n ei ddweud "yn ei ddioddef am yr holl flynyddoedd." Mae yna wirionedd ac anwiredd yn hyn. Y gwir yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Iesu sy'n cael eu cydnabod yn ein Calendr fel Seintiau yn enghreifftiau o "rinwedd arwrol" - dyna sut y maen nhw wedi cael eu hunain yn ein calendr. Fodd bynnag, mae'n anwybyddu gwirionedd dwys am y ffydd Gristnogol: mae bod yn sant yn rhodd.

Yn Llyfr y Datguddiad, disgrifir y seintiau fel y rhai sydd "wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen" (*Datguddiad 7.14),* ac yn llythyrau Paul*,* dim ond Cristnogion o unrhyw le yw'r seintiau. Mae hynny oherwydd bod pwy bynnag sy'n derbyn Iesu Grist fel Arglwydd eisoes wedi'u prynu gan ei aberth ar y Groes ac wedi'u gwisgo gyda statws Cyfiawnder Crist. Mae sancteiddrwydd yn rhodd i'w derbyn ac nid yn wobr i ymdrechu amdani. Mae'n cael ei roi adeg ein mabwysiadu fel plant Duw mewn bedydd, pan fyddwn yn cael ein claddu a'n hatgyfodi'n ysbrydol ac yn symbolaidd, gydag Iesu. Nid ydym yn ei haeddu, nid ydym yn ei ennill: Crist sydd wedi ennill ein sancteiddiad. Weithiau, rwy'n meddwl y gallwn ni gymryd hyn yn rhy ganiataol. "Dyma gariad Duw," ysgrifennodd Ioan, "nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau" *(1 Ioan 4.10)*

Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod cariad Duw drosom mor ddwys, yn cofleidio cymaint ac yn derbyn cymaint, yn golygu y dylid ei gymryd yn ganiataol. Mae i fod i'n newid ni am byth. Mae hwn yn gwestiwn y mae Paul yn ei ystyried yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid, dosbarth meistr ar sut mae Duw wrth ei waith yn y byd yn Iesu. Ym mhum pennod gyntaf y llythyr, mae Paul yn dadlau mor gryf ag y gallai dros rodd rad Duw o iachawdwriaeth yn Iesu, mae'n cael ei roi, nid ei ennill. Ym Mhennod 6, fodd bynnag, mae'n gorfod ystyried y cwestiwn amlwg: "A ydym i barhau mewn pechod er mwyn i ras amlhau?" A ddylen ni dderbyn bod cariad Duw yn ein hachub a pheidio â sut rydym ni'n ymateb ac yn byw? Ddim ar unrhyw gyfrif, meddai Paul. Nid fel yna mae i fod i weithio. Prynodd cariad Duw ni er mwyn ein hennill i fywyd o sancteiddrwydd, felly, nawr, mae'n rhaid i ni adael i nerth yr Ysbryd lywodraethu'n bywydau a thyfu i mewn i gyfanrwydd a sancteiddrwydd a bod fel efe.

"Yr wyf yn ymbil arnoch, frodyr, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond gadewch i Dduw eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, a'ch galluogi i ganfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef." *(Rhufeiniaid 12.2*)

Mae Cristnogion felly'n byw mewn sefyllfa o "nawr ond ddim eto". Mae cariad Duw yn ein derbyn fel ag yr ydym, ond dylai cariad Duw hefyd ein gyrru i gael ein trawsnewid ac i fyw i lawnder bywyd yn unol â'i ewyllys. Nid dim ond gadael i Dduw blannu ei hadyn o ras ynom yw Cristnogaeth, mae hefyd yn golygu fod y garddwr yn cael tocio beth nad yw'n sanctaidd o'n bywydau a gadael i'r hyn sy'n sanctaidd dyfu yn ei le. Does dim diogi mewn Cristnogaeth: mae gras yn rhodd, ond mae hefyd yn wŷs; mae'n rhad, ond mae'n galw am ymrwymiad.

Rydym ar fin tymor yr Adfent ac mae hyn oll yn cael ei fynegi yn un o syniadau canolog yr Adfent. Rydym yn gofyn i Dduw ein cynhyrfu, er mwyn i ni gael gwared ar weithgareddau'r tywyllwch a gwisgo arfwisg goleuni – fel y gallwn gael ein trawsnewid gan rodd Duw o gariad i ddod yn bopeth mae Duw yn dymuno i ni fod: seintiau mewn gair a gweithred.

+GL